# HEDDWCH

**Rhifyn 85 > Rhagfyr 2023 > CND Cymru > Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear**




## *HERIO'R NARATIF*

**Gwelodd y flwyddyn 2023 y byd ar chwâl. Mae'r drefn wleidyddol unwaith eto wedi troi'n gythrwfl treisgar, o Wcráin i Swdan i Gaza. Mae cenhedloedd rhyfelgar a'u cefnogwyr yn bygwth ag arfogaethau niwclear. Mae'r perygl o wrthdaro ehangach yn fygythiad gwirioneddol. Mae natur hithau mewn cythrwfl, wrth i danau gwyllt a llifogydd anrheithio'r byd. Mae'n bryd gweithredu mewn modd sy'n cadarnhau bywyd, gan greu heddwch a chyfiawnder i'n planed a'i phobloedd.**

# CADOEDIAD GAZA NAWR



*Pablo Picasso, 1937*



**Ar ôl CCB CND Cymru yn Aberystwyth (ac ar-lein) ar 16 Medi 2023, pleser yw cyhoeddi mai ein Cadeirydd newydd yw Mabon ap Gwynfor. Mae'n cymryd yr awenau o ddwylo Jill Evans, sy'n parhau ar y Pwyllgor. Diolch yn fawr iddynt ill dau.**

## *YN Y RHIFYN HWN*


| | |
|---|---|
| Arfogaeth niwclear: Na i fraw niwclear gwladol | 3 |
| Rhyfel Israel-Gaza Adeiladu heddwch nid bomiau | 4 |
| Rhyfel Israel-Gaza Dros blant a'r dyfodol | 5 |
| Rhyfel Israel-Gaza A all deddfau liniaru rhyfel? | 6 |
| Pŵer niwclear Yr ymgyrchu diweddaraf | 8 |
| Newyddion Cymru O Fôn i Fynwy | 10 |
| Adolygiadau: drama a ffilm *The Big Mistake, Oppenheim* | 12 |
| Teyrngedau Er Cof | 12 |
| Cysylltiadau CND Cymru | 16 |


*Abby Poulson*




***Uchod a'r clawr blaen: taith gerdded 4-diwrnod CND Cymru o Drawsfynydd i Foduan yn cyrraedd yr Eisteddfod ar 6 Awst (Dydd Hiroshima) 2023***

# NA I FRAW NIWCLEAR GWLADOL

*"Arfau niwclear yw'r pŵer mwyaf dinistriol a grëwyd erioed. Nid ydynt yn cynnig unrhyw ddiogelwch – dim ond lladdfa ac anhrefn. Llwyddo i'w dileu fyddai ein rhodd fwyaf i genedlaethau'r dyfodol."*

***Ysgrifennydd Cyffredinol y CU, António Guterres***

*"Dim ond ffrwydrad sy'n ysgwyd y Dwyrain Canol fydd yn adfer urddas, cryfder a diogelwch y wlad hon! Mae'n bryd cael dyfais Dydd y Farn..."*

***Aelod o Knesset Israel, Revital Gotliv (Likud) yn galw am gyrch ag arfau niwclear***
*Hydref 2023*

## ARFOGAETHAU NIWCLEAR

*[amc. ICAN—Yr Ymgyrch Ryngwladol yn erbyn Arfau Niwclear]*

- **12,700 O ARFBENNAU YN Y BYD**
- **9 O WLEDYDD YN MEDDU AR ARFAU NIWCLEAR**

| | |
|---|---|
| Rwssia | 5,889 |
| UDA | 5,224 |
| China | 410 |
| Ffrainc | 290 |
| DU | 225 |
| Pacistan | 170 |
| India | 164 |
| Israel | c90 |
| G Corea | c30 |

- **24 X HIROSHIMA**
  **Mae bom disgyrchiant B61-13 newydd UDA 24 gwaith yn fwy pwerus na'r un a ollyngwyd ar Hiroshima. Gallai ladd mwy na 300,000 o bobl mewn un ffrwydrad, ac anafu cannoedd o filoedd yn ychwanegol…**
- **£205 BN**
  **Cost oes llongau tanfor niwclear Dreadnought newydd y DU.** Pob un i'w harfogi ag 8-12 o daflegrau balistig, pob taflegryn yn cludo hyd at 8 o arfbennau [*amc. CND Prydeinig*]
- **40 Y CANT**
  **Ymrwymiad (2021) i gynyddu arsenal niwclear Prydain. Mae'r rhan fwyaf o bwerau mawr bellach yn cynyddu nifer eu harfbennau.**

## CYTUNDEBAU NIWCLEAR –Y DIWEDDARAF

Mae Rwsia wedi tynnu nôl o gadarnhau'r **Cytundeb Gwahardd Prawf Cynhwysfawr (CTBT)**. Er ei fod yn gam yn ôl, mae hyn yn fwy o stynt "chwifio cleddyf" na rhywbeth ag iddo unrhyw oblygiadau ymarferol, gan na ddaeth y CTBT i rym erioed – am nad oes yr un o blith China, yr Aifft, India, Iran, Israel, Gogledd Corea, Pacistan ac UDA erioed wedi cadarnhau'r cytundeb.

Wedi dweud hynny, hyd yn oed heb iddo fod mewn grym, bu'r CTBT yn anhygoel o lwyddiannus, gan greu a chynnal norm mor bwerus yn erbyn profion niwclear fel mai llai na dwsin ohonyn nhw a fu er ei fabwysiadu ym 1997; dim ond Gogledd Corea sydd wedi cynnal profion arfau niwclear y ganrif hon.

Yn fwy cadarnhaol, arwyddodd dwy wlad arall y **Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear (TPNW)**, gan ddod â nifer y llofnodwyr i 93 – bron hanner holl wledydd y byd – gyda 69 o'r rheini wedi cadarnhau hefyd. Cynhelir Ail Gyfarfod y Gwladwriaethau'r TPNW ddiwedd mis Tachwedd (wrth inni fynd i'r wasg) ym Mhencadlys y Cenhedloedd Unedig yn Efrog Newydd; gobeithio y bydd mwy o daleithiau yn llofnodi neu'n cadarnhau'r cytundeb i gyd-fynd â'r gynhadledd hon.

**BRIAN JONES**

# ADEILADU HEDDWCH NID BOMIAU

Philip Steele




*Gwylnos dros heddwch a chyfiawnder, Caernarfon*

**Mae'n gyfnod cythryblus ar y llwyfan rhyngwladol gyda'r rhyfel ym Mhalestina ac Israel yn dod i'r amlwg unwaith yn rhagor. Dywed rhai i'r rhyfel yma gychwyn ar 7 Hydref y fed wrth i ddihirod Hamas ymosod yn gïaidd ar drigolion diniwed Israelaidd gan ladd oddeutu 1,200 o drueiniaid, yn ôl rhai amcangyfrifon.**

***Y cefndir***

Mae'n gywir dweud mai dyma'r ymosodiad unigol mwyaf gwaedlyd y mae Israel wedi ei ddioddef ers sefydlu'r wladwriaeth Israelaidd, ond mae'n angyhwir dweud mai dyma oedd dechrau y rhyfel. Oblegid, yn ôl y Cenhedloedd Unedig lladdwyd bron i 6,500 ac anafwyd dros 152,000 o Balesteiniaid o ganlyniad i weithredoedd rhyfelgar rhwng 2008 a 2023. Ac fe wyddom fod gwaed wedi llifo yn llawer rhy aml ymhlith pobloedd Palestina ac Israel dros y degawdau.

***Y cyd-destun rhyngwladol***

Yn ychwanegol at hyn, wrth gwrs, mae'r ffaith fod y rhyfel yma yn ryfel procsi rhwng actorion llawer iawn mwy. Mae Israel wrth gwrs yn wladwriaeth sydd â chanddi arfau niwclear, tra bod Iran, sydd yn cefnogi Hamas, yn gwneud pob dim o fewn ei gallu i ddatblygu arfau niwclear. Bydd pob ochr yn trïo tynnu cefnogaeth eu cyngrheiriaid rhyngwladol i fewn wrth i bethau boethi.

***Atal y lladd nawr***

Pwy sydd yn dioddef yng nghanol hyn oll ydy pobl ddiniwed. Mae tua hanner poblogaeth Gaza o dan ddeunaw oed, ac ar hyn o bryd maent oll wedi cael ei dal yn gaeth mewn parth rhyfel gwaedlyd gyda rocedi a thaflegrau yn glanio o'u hamgylch, a dŵr a thrydan a hanfodion eraill bywyd yn cael eu wadu iddynt. Rhaid cael cadoediad felly er mwyn o leiaf gadael i'r trueiniaid yma gael lloches, bwyd a dŵr.

Ond mae'n rhaid i gadoediad gael cefnogaeth lwyr y Cenhedloedd Unedig ac atal y rhyfel rhag dwysáu. Mae'n anochel fod cenhedlaeth arall o bobl a fydd yn dioddef o PTSD ac am weld dial eisoes yn cael eu magu yng nghysgod y bomiau a'r taflegrau. Mae dyletswydd ar deulu cenhedloedd y byd i gynnig gobaith i'r genhedlaeth yma a rheswm iddynt weld gwerth mewn dilyn llwybr heddwch.

**Dim ond trwy roi yr arfau i lawr a dechrau trafod – ta waeth pa mor anodd a lletchwith ydy hynny – y gallwn roi gobaith ac adeiladu yr Heddwch y mae'r byd yn ei ddeisyfu.**

Gadewch i ni ymrwymo i wneud pob dim i weithio tuag at y cadoediad a'r heddwch a ddaw yn ei sgil.

**MABON AP GWYNFOR**
*Hydref 2023*

# DROS BLANT A'R DYFODOL

Rhwng 2002 a 2015, fel ASE dros Gymru, ymwelais â Phalestina ac Israel dros ddeg gwaith. Fy ymweliad diwethaf â Gaza oedd yn Ionawr 2010, flwyddyn ar ôl yr ymosodiad gan Israel a laddodd 1,400 o bobl a dinistrio ysgolion, ysbytai, tai a ffatrïoedd.

Fe'm trawyd gan y ffaith bod dros hanner poblogaeth Gaza yn blant. Sgrifennais ar y pryd: "Maen nhw wedi gweld pethau na ddylai'r un plentyn eu gweld. Mae'n anodd dychmygu byw yn y fath dlodi a'r fath ofn. Mae wynebau'r plant yn aml yn adlewyrchu'r arswyd. Ond maen nhw hefyd yn dangos gobaith y gall eu dyfodol fod yn well."

**Heddiw, does dim geiriau. Mae'n torri 'nghalon i. Lladdwyd mwy na 11,000 o bobol yn Gaza yn yr ymosodiad ac ychydig o gymorth sy'n cyrraedd pobl mewn angen dirfawr. Unwaith eto gwelwn rwbel ysbytai ac ysgolion. Pa mor anodd bynnag yw dod o hyd i obaith heddiw, rhaid i'r bobl eu hunain fod yn ysbrydoliaeth i ni.**

### *Gweithio ynghyd*

Mae menywod o Israel a Phalestina yn cydweithio dros heddwch. Ar 4 Hydref cynhaliodd 'Women Wage Peace' a 'Women of the Sun' ddigwyddiad ar y cyd gyda'r neges: *"Rydyn ni, famau Palestina ac Israel, yn benderfynol o atal y cylch dieflig o dywallt gwaed ac i newid realiti'r gwrthdaro anodd rhwng y ddwy genedl, er lles ein plant."*

Ers hynny mae Women Wage Peace wedi cyhoeddi datganiad arall, yn cynnwys y canlynol: *"Mudiad o fenywod Iddewig ac Arabaidd ydym ni, amrywiol ein barn a'n safbwyntiau, a chawsom ein hunain y tu mewn i'r ffilm wallgo, fygythiol, erchyll a brawychus hon. Does dim geiriau mewn unrhyw iaith i ddisgrifio'r hyn yr aethom drwyddo yr wythnos ddiwetha hon…*

*"Hyd yn oed yn y sefyllfaoedd mwyaf anodd, ein dyletswydd ni fel mamau, fel menywod, fel bodau dynol ac fel cenedl gyfan yw peidio â cholli gwerthoedd dynol sylfaenol…*


*"Rhaid i ni droi pob carreg er mwyn canfod ateb gwleidyddol. Dyma ein dyletswydd ar gyfer dyfodol ein plant. Dyma ein dyletswydd i blant Israel a Phalestina. Maen nhw'n haeddu dyfodol diogel a rhydd, nid dyfodol o farwolaeth, rhyfel a dinistr."*

**JILL EVANS**




*PSC Cardiff*

# A ALL DEDDFAU LINIARU RHYFEL?



O Wcráin i Gaza, mae cyhuddiadau o anghyfiawnder a throseddau rhyfel yn gwibio'n ôl ac ymlaen. Mae anghydfod cyfreithiol ynghylch cyfeddiannu tiriogaeth yn ganolog i'r ddau wrthdaro anhydrin hyn. Mae cytundeb cyfreithiol eang bod meddiant Israel ar diroedd Palestina a'r anheddu arnynt ers 1967 yn groes i gyfraith ryngwladol. Mae a wnelo heriau cyfreithiol rhyngwladol eraill â throseddau dyngarol, hawliau dynol a throseddau rhyfel.

Ym mis Mawrth 2023 atgyfeiriwyd Vladimir Putin i'r Llys Troseddol Rhyngwladol (ICC) yn yr Hâg, am droseddau rhyfel honedig Rwsia yn Wcráin. Yn dilyn yr ymosodiad trawsffiniol milain (a throseddol) gan Hamas ar 7 Hydref 2023, cyhoeddodd Benjamin Netanyahu gyfres o fesurau draconaidd ar gyfer Gaza. Efallai eu bod yn ofalus (os yn sinigaidd) eu geiriad, ond ar ôl eu gweithredu ar lawr gwlad ni ellid eu disgrifio ond fel rhai sy'n tramgwyddo Cytundeb Genefa – er gwaethaf honiad Trumpaidd braidd Netanyahu mai'r IDF yw'r 'fyddin fwyaf moesol ar y Ddaear'.

***Safonau dwbl***

Rhuthrodd cyhuddwyr Putin, fel Biden a Blinken, Sunak, Starmer ac Ursula Van der Leyen yr UE i gefnogi Netanyahu, hyd yn oed pan gynyddodd y nifer a laddwyd gan yr IDF y tu hwnt i 11,000 (dwy ran o dair ohonynt yn fenywod a phlant) ac y cafodd dros 1.5 miliwn o sifiliaid eu dadwreiddio o'u cartrefi a'u cyfeirio at barthau a oedd yn dal i gael eu bomio. Dengys yr ymatebion cyferbyniol hyn i Ryfel Wcráin a Rhyfel Gaza yn glir bod 'rheolau' rhyfel yn cael eu tanseilio'n ddigywilydd gan safonau dwbl.

Ceisia llywodraeth Israel yn gyfiawnhau ei gweithredoedd trwy gyfeirio at natur droseddol ymosodiadau Hamas ar 7 Hydref fel gweithredoedd unigryw o farbaraidd, heb gysylltiad â dioddefaint hirsefydlog pobl Palestina. Ond yn sicr, egwyddor sylfaenol cyfiawnder yw na all dau gamwedd greu iawnder.

***Terfysgaeth a chyd-destun***

Roedd Ysgrifennydd Cyffredinol y CU, António

*Yn gryno...*

## CYTUNDEBAU RHYNGWLADOL GENEFA

*https://www.icrc.org/en/doc/war-and-law/treaties-customary-law/geneva-conventions/overview-geneva-conventions.htm*

- Dim targedu sifiliaid neu seilwaith hanfodol
- Dim dinistrio ysgolion, ysbytai na thai, oni bai eu bod yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgaredd milwrol
- Dim lladd gelynion sydd wedi'u hanafu neu'n gaeth
- Dim 'difrod cyfochrog' gormodol sy'n niweidio sifiliaid
- Dim arteithio neu gam-drin carcharorion
- Rhaid rhoi llwybrau diogel i sifiliaid allan o barthau brwydro a rhaid caniatáu cymorth dyngarol i mewn
- Ni cheir ymosod ar sefydliadau dyngarol fel y Groes Goch neu'r Cilgant Coch
- Dim defnydd diwahân o arfau
- Dim cosbi torfol

Guterres, yn iawn i gondemnio cyrchoedd Hamas ac i ddweud eu bod heb ddigwydd o fewn gwactod. Does dim gwactod mewn hanes: mae gan bob digwyddiad, da neu ddrwg, ganlyniadau a chyd-destunau. Fel rheol, mae terfysgaeth anwladwriaethol yn deillio o anghyfiawnder parhaus nad oes gan bobl fodd i'w unioni. Nid ei esgusodi yw dweud ei fod yn deillio o anobaith, ond ceisio canfod achos a dod o hyd i iachâd. Dyw dial ond yn lluosogi'r broblem; dim ond drwy gyfiawnder a diplomyddiaeth y daw heddwch a diogelwch. Mewn tiriogaeth dan feddiant, mae gan y meddianwyr ddyletswyddau ac mae gan y bobl hawliau o dan gyfraith ddyngarol ryngwladol, gweler ***https://guide-humanitarian-law.org/content/article/3/occupied-territory***

***Galw am gadoediad***

Yng Nghyngor Diogelwch y CU, roes yr UD feto ar sawl cynnig o blaid cadoediad dyngarol; ataliodd y DU ei phleidlais. Mae hawl pum aelod parhaol Cyngor Diogelwch y CU i roi feto ar gynigion yn sicrhau y gall pŵer a chyfoeth drechu gwrthwynebiad neu foesoldeb y mwyafrif yn aml. Ar 27 Hydref galwodd Cynulliad Cyffredinol y CU am gadoediad dyngarol parhaus ar unwaith, gyda Hamas ac Israel yn rhoi'r gorau i ymladd.

Philip Steele




***Troseddau rhyfel: Piced tu allan o'r Senedd, Tachwedd yr 8fed.***

Pleidleisiodd 120 o wledydd o blaid, 14 yn erbyn, gyda 45 yn ymatal. Ond mae diffyg pŵer yn y Cynulliad Cyffredinol. Mae arnom angen diwygio.

Wrth i drychineb Gaza waethygu bob dydd, ynghyd â'r tebygolrwydd o ymlediad rhanbarthol neu fyd-eang – yn cynnwys i wledydd niwclear – awgrymai arolwg (*YouGov 19 Hydref*) y cefnogai mwy na thri-chwarter cyhoedd Prydain gadoediad llawn. Yma, roedd gwylnosau, gorymdeithiau a chyfarfodydd yn digwydd mewn dinasoedd, trefi a phentrefi ledled Cymru, oll yn galw am gadoediad. Gan fygwth undod eu rhengoedd eu hunain, dim ond galw am saib fer yn yr ymladd i ganiatáu cymorth dyngarol a wnâi'r Ceidwadwyr a Llafur.

***Atal y duedd tuag at ryfel***

Wrth i mi sgrifennu, does dim diwedd i'w weld i ryfeloedd Wcráin nac Israel-Gaza. Mae'n hanfodol gweithredu'r set o ddeddfau dyngarol rhyngwladol sydd wedi esblygu dros yr oesoedd, a'u meithrin yn enw gwareiddiad.

Cafodd moesoldeb rhyfela ei drafod yn ddwys gan grefyddau, athronwyr a deddfwyr ers miloedd o flynyddoedd. Arweiniodd datblygiadau cyflym rhyfela marwol ers y 1800au at sefydlu'r Groes Goch (a'r Cilgant bellach), Cytundebau Genefa a'r Hâg, Cynghrair y Cenhedloedd ac yna'r Cenhedloedd Unedig, i gytundebau i wahardd rhai mathau o arfau, at sefydlu Llys Troseddol Rhyngwladol (nad yw UDA, Rwsia, China na Swdan yn ei gefnogi ar hyn o bryd).

Wrth gwrs mae'r cyfyngiadau hyn yn cael eu profi i'r eithaf gan arweinwyr pŵer-orffwyll, gan y cymhlyg milwrol-diwydiannol, gan fuddiannau manteisiol y cyfryngau, a difrawder y cyhoedd. Ond cofiwch pa mor bell y daethom. Cofiwch am ein cyd-ymgyrchwyr heddwch ym Mhalestina ac Israel, yn Wcráin a Rwsia, yn UDA ac yma yng Nghymru. I ddechrau mae angen i ni gael Cytundeb y CU ar gyfer Atal Arfau Niwclear (TPNW) dros y llinell derfyn. Ewch ati i wthio!

**PHILIP STEELE**
*Hydref 2023*

# Y CROCHAN YMBELYDROL YN DAL I FFRWTIAN

**Ar waethaf pob tystiolaeth resymegol, mae'r diwydiant niwclear, Llywodraethau San Steffan a Chymru yn dal i obeithio am 'ddadeni niwclear' ym Mhrydain fydd yn cynnwys atomfeydd yn Wylfa a Thrawsfynydd. Dyma grynodeb o rai datblygiadau diweddar...**

### *Great British Nuclear*

Lawnsiwyd 'Great British Nuclear' (*sic!*) gan Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol yng Ngorffennaf, gyda'r uchelgais hunllefus o (unwaith eto!) ledaenu ynni niwclear ledled Prydain. Prif Weithredwraig GBN yw Gwen Parry-Jones OBE, a hi hefyd yw Prif Weithredwraig Magnox Ltd, a chyn hynny gweithiodd i Horizon Nuclear Power (Wylfa – failed).

### *Cwmni Egino*

Llywodraeth Cymru sefydlodd Cwmni Egino er mwyn datblygu safle atomfa Trawsfynydd. Y prif bwrpas yw hybu mwy o niwcs yn Traws, efo'r abwyd arferol o swyddi, a'r Prif Weithredwr yw Alan Raymant, a fethodd yn natblygiadau Wylfa a Bradwell. Cyhoeddwyd llyfryn afreal o optimistaidd ym mis Mai 2023. Y freuddwyd/hunllef yw gweld Trawsfynydd yn safle Adweithydd Modiwlaidd Bychan (SMR) cyntaf Prydain. Ydych chi am weld Parc Cenedlaethol Eryri yn faes arbrofi mewn technoleg niwclear na chafodd ei brofi o'r blaen?

### *Cystadleuaeth SMRs*

Mae Llywodraeth San Steffan wedi cyhoeddi enwau'r chwe cwmni sydd i fynd ymlaen i gystadleuaeth datblygu SMRs. Dewiswyd EDF, GE-Hitachi Nuclear Energy International LLC, Holtec Britain Limited, NuScale Power, Rolls Royce SMR a Westinghouse Electric Company UK Limited. Dyfernir yr enillydd yng ngwanwyn 2024, gyda'r bwriad o SMRs gweithredol erbyn y 2030au. Meddai Gwen Parry-Jones: '*This is a hugely exciting day for the nuclear industry.*'




Abby Poulson

***Mae holl grwpiau gwrth-niwclear Cymru wedi beirniadu trefnwyr yr Eisteddfod am dderbyn arian nawdd gan Westinghouse – er gwaethaf ei record erchyll.***

### *CoRWM yn ymweld â Traws*


Ymwelodd CoRWM (Committee on Radioactive Waste Management) â Thrawsfynydd ym mis Medi. Amcangyfrifir y bydd costau dad-gomisiynu dros £1.3 biliwn yn Traws a dros £1.4 biliwn yn Wylfa. Gwelir Traws fel safle i 'arwain a dysgu' ar ddad-gomisiynu. Ai jôc anfwriadol oedd y datganiad: "*We were grateful for Magnox's hospitality at lunch, including an introduction for many of us to delightful Radnor water*". Neb am fentro yfed dŵr o Lyn Trawsfynydd felly!

### *Y Sefydliad Materion Cymreig*

Ar 5 Hydref cynhaliodd y Sefydliad Materion Cymreig ddigwyddiad 'Pweru Ynys Ynni a'i Phobl' yn M-Sparc, Gaerwen. Roedd gogwydd trwm tuag at niwclear, gyda pob un o'r pedwar oedd ar y panel trafod yn gefnogol i niwclear, gan gynnwys yr 'Atomic Kitten', Virginia Crosbie AS. Er hyn, llwyddodd nifer o gynrychiolwyr PAWB a CND Cymru i fynegi y safbwynt gwrth-niwclear yn gryf.

**ROBAT IDRIS**

# LANSIO




**Going Nuclear**
**Mabon ap Gwynfor**
2023, 210tt
978-1-84524-540-5, £13

Mae llyfr newydd gan Gadeirydd CND Cymru, Mabon ap Gwynfor, yn bwrw golwg fanwl ar honiadau'r diwydiant niwclear ac yn archwilio'r cysylltiadau rhwng projectau niwclear sifil a milwrol. Caiff ei adolygu yn rhifyn nesaf *Heddwch*, ac fe'i lansiwyd ym Mhalas Print, Caernarfon, ar 13 Tachwedd... Felly, peidiwch â gwastraffu dim amser! Darllenwch.

*"Rhydd y llyfr hwn olwg heb ideoleg, yn seiliedig ar dystiolaeth, ar y materion sy'n ymblethu i ffurfio'r ddadl niwclear – ac ni allai fod yn fwy amserol, gan fod llywodraeth bresennol y DU wrthi'n cynllunio ar gyfer dadeni niwclear."*

***Dr Paul Dorfman***

# NEGES O PLOUGOÑ



***Ffrwydrodd y frwydr yn erbyn lleoli gorsaf bŵer niwclear newydd yn Plogoff yn Llydaw yn y 1970au. Heriodd protestwyr yr heddlu terfysg, heddlu milwrol ac awyrfilwyr oddi yno, a chael gwared o EdF.***

Anrhydedd a thestun balchder mawr i mi oedd cynrychioli Cymru ym mis Awst eleni yng nghoffadwriaeth brwydr Plougoñ yn y 1970au a buddugoliaeth y Llydawyr dros bŵer niwclear.

Daeth yr achlysur â dirprwyaethau o Japan a'r Almaen, ymhlith eraill, ynghyd i gyfarfod, gorymdeithio, trafod a dawnsio gyda hen ac ifanc y rhanbarth. Neilltuol o deimladwy oedd presenoldeb Noriko Ogura, a oedd, yn 81 oed, wedi dod o Japan i rannu ei stori am frwydr 37-mlynedd pysgotwyr ei phentref yn erbyn gorsaf bŵer niwclear. Enillwyd y frwydr, ond wylai wrth ddisgrifio sut y rhwygodd hynny'r pentre. Trist hefyd oedd dysgu gan yr Almaenwyr a'r Llydawyr eu bod nhw, fel ninnau, yn wynebu ymgyrch boblyddol yn erbyn ynni adnewyddadwy a'r ffyrdd gorau o frwydro yn erbyn newid hinsawdd.

Siaradais ag awduron, actorion a chyfarwyddwyr ffilmiau, oll yn ymgyrchu yn erbyn ynni niwclear. Mae'r rhain yn ddolenni cyswllt i'w dilyn, ynghyd â gwahoddiad a dderbyniwyd gan y Japaneaid a menywod Plougoñ i ymweld â Chymru. Diolch i Mochiko Yoshii am drefnu'r ymweliad ac am ei chefnogaeth gyson ers i ni gyfarfod bedair blynedd yn ôl ar ein hymweliad cyntaf â Plougoñ. Mae'r frwydr yn parhau, yma, yn Japan ac yn Ewrop. Parhawn i gydlynu.

**LINDA ROGERS**



***Ymgunnull ar gyfer taith gerdded goffa, Plougoñ 2023***

# O FÔN I FYNWY>>>




Eisteddfod Genedlaethol Cymru

***Diweddglo mawreddog Eisteddfod Boduan: 'Mae Heddwch yn Weithred' medd y geiriau***

### *Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023*

Roedd Eisteddfod 2023 ym **Moduan**, ger Pwllheli, yn gyfle gwych i gwrdd â'n gilydd, i rwydweithio, i drafod ac i gael hwyl. Roedd y Babell Heddwch yn fywiog, gyda phobl ifanc – a Dylan! – wrthi'n gwneud craeniau heddwch origami; roedd yr arlunydd Osian Grifford wedi gwneud map anferth o safleoedd milwrol yng Nghymru, y gallai pobl ychwanegu ato yn ystod yr wythnos. Ymhlith yr areithiau roedd un ar y cysylltiadau rhwng niwclear milwrol a sifil, gan Mabon ap Gwynfor, a gyhoeddir gennym. Roedd arddangosfa hynod y Llyfrgell Genedlaethol yn arddangos Deiseb Heddwch y Merched ym 1922 ynghyd â ffotograffau gwreiddiol o'r menywod lleol a'i llofnododd. Gofynai gosodwaith celf ar y Maes i bobl ddiffinio eu dealltwriaeth o Heddwch, ac adleisiwyd hyn mewn diweddglo mawreddog i goffáu'r Tan yn Llŷn, sef llosgi'r 'ysgol fomio' ym **Mhenyberth** ym 1936.

- *Stŵr nawdd niwclear Westinghouse, gwel. t8*

### *Byth eto*

Cafodd 78 mlwyddiant bomio Hiroshima a Nagasaki ei goffáu ar 6 Awst yng **Nghasnewydd** (Glan y Llyn, Tŷ Tredegar), mewn digwyddiad blynyddol a gynhaliwyd gan CND Casnewydd a Chynghrair Rhyngwladol y Menywod dros Heddwch a Rhyddid.

Ar yr un diwrnod ymgasglodd pobl yng Ngardd GRAFT Amgueddfa'r Glannau yn Abertawe. Ymhlith y siaradwyr roedd Paul Elliott, y Cyng Alyson Pugh a Mike Hedges AoS. Roedd y neges yn glir: gwaharddwn arfau niwclear ledled y byd trwy lofnodi TPNW y CU.

### *Caneuon – a distawrwydd*

Dathlwyd Diwrnod Heddwch Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar 21 Medi mewn cân gan Gôr Gobaith **Aberystwyth** ger Coeden Heddwch y dref.

Am hanner dydd ar 3 Hydref cynhaliwyd gwylnos dawel dros heddwch yn Wcráin yn Sgwâr Owain Glyndŵr, rhan o ymgyrch fyd-eang (30 Medi - 8 Hydref) yn sgil yr Uwchgynhadledd Ryngwladol a gynhaliwyd yn Fienna yn yr haf, a alwai am gadoediad (gweler adroddiad Wendy Jones yn *Heddwch* 84).

### *Galw ar bob myfyriwr*

Nid yw cael mynediad i ddigwyddiadau Wythnos y Glas mor hawdd – a rhad – ag yr arferai fod ym mhrifysgolion Cymru. Go dda, Sam Bannon, am sesiwn lwyddiannus iawn ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd ym Mangor, sydd â'i Sefydliad 'Dyfodol Niwclear' ei hun bellach. Sicrhaodd Dylan Lewis-Rowlands hefyd stondin yng ngholeg Aberystwyth fis Tachwedd.

### *'The Big Mistake'*

Teithiodd drama deimladwy Michael Mears am ddatblygu a defnyddio'r bom atomig cyntaf o amgylch Cymru ym mis Medi, gyda pherfformiadau yn Galeri **Caernarfon,** Canolfan y Celfyddydau **Aberystwyth** a Theatr Sherman, **Caerdydd.** *Gweler adolygiad Martin Morley, t12.*

# O FÔN I FYNWY>>>

### *Protest pier a prom*

Ar 25 Awst bu 40 o bobl yn protestio wrth bier **Bangor** am ollwng gwastraff ymbelydrol o Fukushima i'r Môr Tawel. Ar 16 Medi, ymgasglodd aelodau CND Cymru ar y prom yn **Aberystwyth** am yr un rheswm.

### *Pabïau gwyn a choffadwriaeth*

Mewn sawl rhan o Gymru ym mis Tachwedd, cynhaliwyd stondinau i werthu pabïau gwyn y Peace Pledge Union, a gosodwyd torchau gwyn yn swyddogol ar lawer o gofebau rhyfel. Mae'r rhain yn cynrychioli holl ddioddefwyr rhyfel, gan gynnwys sifiliaid – coffâd priodol o ystyried y lladdfa drasig o sifiliaid yn Israel a Gaza. Dim ond y ddiweddar, ddialar-amdani Ysgrifennydd Cartref Suella Braverman allai honni bod Diwrnod y Cadoediad yn ddiwrnod amhriodol i alw am Gadoediad!

### *Yr Apêl*

Wrth inni fynd i'r wasg, mae llyfr dwyieithog newydd ei gyhoeddi gan Y Lolfa, a chaiff ei adolygu'n llawn yn ein rhifyn nesaf. Mae *Yr Apêl/The Appeal 1923-24* yn adrodd 'Stori Rhyfeddol Deiseb Heddwch Merched Cymru'. Wedi'i olygu gan Jenny Mathers a Mererid Hopwood, ceir penodau gan Jill Evans, Aled Eurig, Catrin Stevens, Meg Elis a Siân Rhiannon Williams, Eirlys M Barker, Annie Williams a Craig Owen. (978-1-80099-3822, £9.99) Caiff plac porffor i anrhydeddu Annie Hughes-Griffths, yr ymgyrchydd heddwch a drefnodd y ddeiseb a lofnodwyd gan 400,000 o fenywod Cymru, ei ddadorchuddio yn **Aberystwyth**.

### *Stopiwch y gyflafan: protestiadau Cymru*

Ar 7 Hydref 2023, daeth ymosododd Hamas ar Israel, gan ladd rhyw 1,200 o bobl a chymryd 200 o wystlon, yn sioc enbyd i'r byd. Ymatebodd Netanyahu drwy garped-fomio llain Gaza, a thorri cyflenwadau dyngarol sylfaenol wrth i Balestiniaid diniwed gael eu gyrru o'u cartrefi, fel cosb dorfol. Hyd yn oed cyn i'r goresgyniad ar dir ddechrau, cawsai mwy nag 8,000 o sifiliaid Palestinaidd eu lladd mewn tair wythnos, gan gynnwys 2,000 o blant. Trefnwyd digwyddiadau ledled Cymru, gan gynnwys gwylnosau tawel yn galw am heddwch â chyfiawnder, gorymdeithiau cydgadernid yn galw am gadoediad, cyngherddau a chyfarfodydd cyhoeddus.

Bu digwyddiadau yn **Aberdar, Aberdaugleddau, Aberffraw, Aberystwyth, Abertawe, Aberteifi, Bangor, Bethesda, Beddau, Blaenau Ffestiniog, Borth, Caerdydd, Caerffili, Caergybi, Caernarfon, Casnewydd, Chwilog, Cricieth, Doc Penfro, Gilfach Goch, Hwlffordd, Llanandras, Llanberis, Llanfyllin, Llandidloes, Llandudno, Llechryd, Machynlleth, Merthyr Tudful, Penrhosgarnedd, Porthaethwy, Porthmadog, Pwllheli, Trefor, Tŷ Newydd, Y Barri, Y Drenewydd, Y Fenni, Y Rhyl, Y Trallwng** a **Wrecsam**.




Wendy Lewis

***Gorymdeithwyr ar strydoedd Caerdydd***

# DRAMA

Simon Richardson



**THE MISTAKE gan Michael Mears**
Galeri Caernarfon, Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth, Theatr Sherman Caerdydd
**Perfformiwyd gan Riko Nakazono a Michael Mears. Cyfarwyddydd Rosamunde Hutt, dylunio gan Mark Friend, dylunio sain gan Claire Windsor.**

Roedd hon yn ddrama a brociai'r meddwl, wedi'i pherfformio a'i chyflwyno'n gelfydd iawn. Gyda dau actor, set fechan, berffaith a thema i oeri'r gwaed, mae'n adrodd hanes datblygiad a defnydd erchyll y bom atomig cyntaf. Dengys sut y datblygwyd y syniad a'r dechnoleg mewn ymateb i ddatblygiad tybiedig arf o'r fath yn yr Almaen, a sut y cafodd ei ddefnyddio ddwywaith yn erbyn Japan. Ar un lefel roedd hyn fel darlith wyddonol, gyda theoremau wedi'u disgrifio a'u sgrifennu ar y bwrdd du: chwaraewyd yr arbrofion cynnar fel gêm mewn campfa yn Chicago. Dengys y ddrama sut y gellir gwneud i'r annychmygadwy ymddangos yn ddiniwed ac yn glyfar ac yn y pen draw, yn anochel, a sut mae'r 'sefydliad' wedyn yn ei gyfiawnhau fel yr 'unig ffordd'. Riko Nakazono, â'r fath addfwynder, a chwaraeodd ran Nomura Shipako, sy'n cynrychioli poblogaeth Hiroshima, a Michael Mears, yn newid o'r naill gymeriad i'r llall mewn chwinciad, oedd y ffisegydd niwclear Leo Szilard, yn ogystal â Paul Tibbets, peilot yr *Enola Gay* – a phawb arall a oedd yn rhan o'r 'project', o Einstein, wrthi'n ceisio ffrwyno'r fyddin, i Oppenheimer ei hun.

Cafwyd trafodaeth fywiog gyda'r gynulleidfa ar ôl y ddrama. Dwi'n amau, yng Nghaernarfon, lle gwelsom hi, fod *The Mistake* yn pregethu i'r cadwedig. Byddai'n wych pe bai'n estyn allan yn ehangach, i ysgolion ac i'r lluoedd arfog.

*Yn wir! Gwelwyd sioe Caerdydd gan 50 o fyfyrwyr 6ed dosbarth – gol*

**MARTIN MORLEY**

## TEYRNGEDAU ER COF



# Tim Richards
***1950—2023***


Roedd yn fraint cwrdd â Tim Richards, y bachgen yma o Gaerdydd a fagwyd yn Abertawe, ond a ymgartrefodd yma yn ein tref yn y cymoedd. Aethom yn ffrindiau mawr.

Ymgyrchai Tim dros bob achos gwerinol y gallwch ei enwi, gan nodi anghyfiawnder lle bynnag y bodolai. Wedi gradd yn y gyfraith ym Mhrifysgol Aberystwyth, aeth Tim ymlaen i'w dysgu i fyfyrwyr dosbarth gweithiol yng Nghaerdydd. Dyna oedd ei ddyletswydd, meddai.

Yn sosialydd i'r carn, ymunodd Tim â Phlaid Cymru a sefyll ar gyfer y Cyngor. Oedodd ei gefnogaeth am gyfnod a ffurfio Cymru Goch, gan sgrifennu a

# FFILM

Universal




**OPPENHEIMER**
Ar gael yn awr ar lwyfannau ffrydio yn cynnwys Amazon Prime ac Apple TV.
**Cyfarwyddydd: Christopher Nolan**
**Universal Pictures 2023**

Amlinellir cyd-destun dangos y ffilm hon orau mewn gweminar gan y Bulletin of Atomic Scientists: *Beyond Oppenheimer: building a safer future from our nuclear past* (4 Awst 2023). Oppenheimer oedd cadeirydd cyntaf bwrdd noddwyr y Bwletin. Deilliodd llawer o gytundebau rheolaeth arfau y ganrif ddiwethaf o waithredoedd Oppenheimer a'i gymdeithion. Mae'r ffilm yn mynd at wraidd y cwestiynau a godwyd gan y gwyddonwyr hynny, sydd mor berthnasol heddiw: a ellir llywodraethu arfau niwclear yn effeithiol; a allwn lywodraethu'r technolegau a ddyfeisir gennym; a all gwyddonwyr fod yn rhan o'r drafodaeth wleidyddol heddiw?

Cafodd y ffilm ei beirniadu am beidio ag archwilio effeithiau dinistriol yr arfau atomig ar bobol Japan. Yn lle hynny, mae'r naratif yn canolbwyntio ar Oppenheimer fel unigolyn. Mae'n ganolog i'r digwyddiadau hynod, rhyng-gysylltiedig a ganiataodd ddatblygiad y bom niwclear. Mae'r ffilm yn gosod allan y gwahanol elfennau angenrheidiol, sef gwleidyddiaeth rhyfel, uchelgais personol, ochr yn ochr ag ysgogiad darganfyddiad gwyddonol, a barodd i'r bom atomig ddod i fodolaeth a chael ei ddefnyddio. Mae Christopher Nolan yn ofalus i ddangos i ni nad oedd hon yn broses anochel. Roedd presenoldeb Albert Einstein, a wrthodai ymwneud ag adeiladu'r bom, yn dangos i ni y posibilrwydd o ffordd arall.

Mae ffurf y ffilm yn amlygu o hyd thema'r gwahanol elfennau sydd ar waith. Mae'r gorffennol a'r presennol yn croestorri, felly gwelwn achos ac effaith a sut mae pethau'n cysylltu'n hanesyddol. Gwelwn y grymoedd ar waith sy'n perswadio Oppenheimer i benderfynu yn y modd y gwna, a gadewais y ffilm ag ymdeimlad cryf o bwysigrwydd cyfrifoldeb cyffredin ac unigol.

**LINDA ROGERS**

# TEYRNGEDAU ER COF

golygu eu cylchgronau. Roedd Gweriniaetholdeb Sosialaidd Gymreig yn trwytho'i enaid. Dychwelodd i'r Blaid pan etholwyd Leanne Wood yn arweinydd ac yn y man fe'i hetholwyd gan ei bentref, Abertridwr, i'r Cyngor Cymuned.

Roedd cariad Tim at y byd a'i bobloedd yn disgleirio drwodd, a'i awydd angerddol arall oedd amddiffyn y byd, yn enwedig rhag arfau niwclear. Roedd yn gefnogwr brwd i CND Cymru.

Byddai'n dylunio taflenni a phosteri lleol a fe'i gwelid allan yn aml yn gludo posteri'n anghyfreithlon. Galwai'r heddlu lleol heibio'n aml, a Tim yn eu drysu â'i ffraethineb a'i wybodaeth. Byddai'n ceir yn aml yn frith o bosteri, past a phaent. Ie, paent... roedd e'n dwlu ar wal wag!

Mae'r golled drist ar ei ôl yn gadael gwagle y bydd pobl iau yn ei lenwi ryw ddydd. Byddant hwythau'n sefyll ar ysgwyddau dynion fel fy nghyfaill, Tim Richards.

*Hedd perffaith hedd, Tim bach.*

**LINDSAY WHITTLE**

*Rhys Llwyd*



# Emlyn Richards

## *1931—2023*

Bu farw'r Parchedig Emlyn Richards yn 92 oed. Cydymdeimlwn â'i ferch Ruth a chofiwn gyfraniad amrywiol a sylweddol Emlyn yn ei weinidogaeth, fel llenor ac fel ymgyrchydd blaengar dros heddwch ac yn erbyn arfau ac ynni niwclear.

Cafodd Emlyn ei fagu yn Sarn Meyllteyrn, Llŷn, a gadawodd yr ysgol yn 14 oed i weithio ar fferm cyn mynd i astudio i fod yn weinidog. Aeth i weinidogaethu yng Nghemaes, Ynys Môn. Yn y 1980au, daeth yn aelod gweithgar o CND Cymru/ Cangen Ynys Môn, ochr yn ochr â'i gyfaill y Parchedig Emlyn John. Roedd y ddau yn gefnogol iawn i safiad merched Môn fel Nan Morgan, Meg Prydderch, Sioned Huws, Jean Oliver, Val Lane, Sandra Evans, Mary Korn a Jinny Thomas a aeth i Greenham. Yn 1984, o dan gadeiryddiaeth Emlyn Richards, arweiniodd orymdaith brotest fawr gan CND Môn yn Llangefni. Roedd gan CND Môn ei hun 385 o aelodau.



***Emlyn Richards (chwith) gyda'r diweddar Dr Carl Clowes***

Pan sefydlwyd PAWB (Pobl Atal Wylfa B) yn 1988, daeth Emlyn atom i ymgyrchu'n gadarn yn erbyn cynlluniau llywodraeth Thatcher trwy'r Bwrdd Cynhyrchu Trydan Canolog i godi adweithydd niwclear dŵr dan bwysedd yn y Wylfa. I Emlyn yn sicr, dwy ochr o'r un geiniog oedd ynni niwclear ac arfau niwclear. Roedd ei gyfraniadau yn y cyfarfodydd cyhoeddus lle bu PAWB yn ymryson â chynrychiolwyr y Bwrdd Cynhyrchu Trydan Canolog yn effeithiol tu hwnt.

Parhaodd Emlyn yr un mor ffyddlon i ymgyrchu PAWB ar ôl i Tony Blair gynnal dau adolygiad ynni a mynnu bod lle i ynni niwclear fel dull o gynhyrchu trydan. Cofiwn sut y bu'n gefn i deulu oedd yn aelodau yn un o'i eglwysi yng Nghemlyn, sef Richard a Gwenda Jones, Caerdegog. Cofiaf y cyffro yn ei lais dros y ffôn pan soniodd fod Horizon yn rhoi pwysau ar y teulu i werthu darn sylweddol o'u tir a bod rhaid i ni gael cyfarfod buan i drefnu gwrthwynebiad. Trefnwyd cyfarfod y noson honno! Chwaraeodd ran bwysig ym muddugoliaeth teulu Caerdegog wrth i Horizon dynnu eu bygythiad yn ôl.

Gwasanaethodd Emlyn ei aelodau yn ardal Cemaes fel gweinidog llawn-amser am dros 40 mlynedd, ac am sawl blwyddyn wedyn ar ôl ymddeol. Parhaodd ardal ei fagwraeth yn Llŷn yn agos at ei galon ac roedd cyfoeth iaith yr ardal honno yn amlwg iawn yn y llyfrau niferus a ysgrifennodd. Ei lyfr olaf, yn ddigon addas, oedd *Cofio'r Wylfa* (2021).

**DYLAN MORGAN**





# John Lawrence Minnion

***1939—2023***

Y cof cyntaf sydd gen i o John Minnion oedd ar orymdaith Aldermaston gynnar, nid y gyntaf yn 1958 ond yn fwy tebygol y rhai o 1959-63. Yn y dyddiau hynny nid oedd gennym bleser (amheus) defnyddio uchelseinydd a bloeddio sloganau; yn lle hynny, dibynem ar *jazz-on-the-march* i godi'r galon. Roedd John yn gerddor jazz medrus ac fe wnaeth e a'i gyd-gerddorion, ryfeddodau o ran cadw'r ysbryd uchel, waeth beth fyddai'r tywydd – a oedd, fel y cofiaf, fel arfer yn wael ac yn wlyb.

Rhwng gorymdeithiau roedd yn ymgyrchydd gweithgar dros CND yn lleol ac yn genedlaethol ac am gyfnod byr bu'n Ysgrifennydd Cyffredinol CND (Prydeinig). Ond dwi'n credu ei fod yn hapusach fel ymgyrchydd lleol ar lawr gwlad nag fel Swyddog Cenedlaethol. Roedd ef a'i wraig gyntaf Heather yn mynychu ac yn cyfrannu'n gyson i Gyngor Cenedlaethol CND ar hyd fy nghyfnod fel Cadeirydd CND (1973-79) a bob amser yn weithgar yn eu CND lleol (gweithgar iawn).

Pan ddychwelais i Gymru (ym 1979) gwahanodd ein llwybrau ond, fel y dysgais yn ei angladd a fynychwyd gan lu o bobl ym mis Medi, parhaodd i hyrwyddo'r ddau beth a garai fwyaf, sef jazz ac CND, nes i oed a dirywiad ei olwg ddechrau effeithio arno.

Fe gwrddon ni eto yn ystod ymgyrch leol ad hoc yn erbyn un o Ryfeloedd y Gwlff, tua blwyddyn ar ôl iddo symud i Gymru, i Gasnewydd.

Wedi hynny byddem yn cwrdd yn ysbeidiol ond yn aml, a John a ysgogodd adfywiad CND Cymru Casnewydd a aeth yn un o'r grwpiau lleol CND mwy gweithgar yng Nghymru – gan gynnal sesiynau dosbarthu taflenni, gwylnosau a chyngerdd jazz mawr mewn lleoliad o fri yng Nghasnewydd. Gwnaeth John gyfraniad mawr i CND (a jazz) ac i'm penderfyniad innau i barhau i ymgyrchu dros ddiarfogi niwclear. Mawr yw'r golled ar ei ôl.

**JOHN COX**

- ***Trist iawn oedd clywed eleni am farwolaeth 2 o'n cefnogwyr hynod weithgar a hoffus, sef JOAN JUDSON a MYRLA GINETE EASTLAND. Bydd teyrngedau i'r ddwy yn ymddangos yn y rhifyn nesaf o* Heddwch.**

# CND CYMRU

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu o fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd dros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd, ac i waredu Prydain a'r byd o arfau dinistr torfol.**

**gwefan** *www.cndcymru.org*
**e-bost** *heddwch@cndcymru.org*
**X (trydar)** *@cndcymru*
**instagram** *@cndcymru*
**gweplyfr** *www.facebook.com/cndcymru/*

# CONTACTS

**Cadeirydd:**
Mabon ap Gwynfor *mabonapgwynfor@gmail.com*

**Is-gadeirydd:**
Brian Jones *brian.jones@phonecoop.coop*

**Trysorydd/Aelodaeth:**
Michael Freeman *aelodaeth@cndcymru.org*
*9 Bryn Briallu, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3SE*

**Ysgryfennydd Cenedlaethol /Y Wasg a Chyfathrebu:**
Dylan Lewis-Rowlands *heddwch@cndcymru.org*

**Pwyllgor Gwaith**
Peter Adamson
Sam Bannon *Heddwch ar Waith]*
Jill Evans
Jill Gough *[cyfryngau cymdeithasol]*
Robat Idris
Awel Irene
Dylan Morgan
Jon Plumpton
Linda Rogers
Bethan Siân
Philip Steele *[Golygydd Heddwch]*

# HEDDWCH


**yw cylchgrawn Ymgyrch Cymru dros Ddiarfogi Niwclear (CND Cymru). Nid yw cynnwys Heddwch o anghenraid yn adlewyrchu barn neu bolisïau CND Cymru. Gellir ei ddarllen ar-lein hefyd, ynghyd ag ôl-rifynnau yn** *www.cndcymru.org*

**Golygydd:** Philip Steele
*golygydd@cndcymru.org*
**Cyfieithydd:** Siân Edwards
*siandefynnog@hotmail.co.uk*
**Dylunio:** Moya O'Rourke
*hello@moyaorourke.com*

Argraffwyd gan Serol Print, Castell-nedd

Nid yw cynnwys **HEDDWCH** o angenrhaid yn adlwurchu barn neu bolisiau CND Cymru. Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth. Da chi, anfonwch unrhyw sylw, cyfraniad neu ddyddiadau digwyddiadau at y golygydd.

Bydd rhifyn nesaf **HEDDWCH** yn ymddangos ym mis Mawrth 2024.






Abby Poulson